

Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru)

**Diweddariad i'r Canllaw mewn perthynas â phrofi a
Threfniadau Gofal Mwy a Llai Dwys
yn ystod y cyfnod COVID-19.**

Cyhoeddwyd 28 Ionawr 2022

Mae'r Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) yn ffurfio sail [Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Ebrill 2020 a'r diweddaraaf am y trefniadau gofal mwy a llai dwys a gyhoeddwyd ddiwethaf ar 16 Rhagfyr 2021.

Y Model D2RA a'r ethos 'Cartref yn Gyntaf' yw'r ateb diodyn o hyd.

Mae'r diweddariad hwn yn cysoni Canllaw Rhyddhau COVID-19 gyda'r dull gweithredu newydd ar gyfer profi pobl wrth iddynt gael eu rhyddhau, h.y. profi am statws heintus neu heb fod yn heintus, yn hytrach na phrawf PCR positif neu negatiff, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r mesurau diogelu ychwanegol sydd wedi'u rhoi ar waith mewn gweithdrefnau derbyn i'r ysbyty a'r llwybr profi cleifion.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bobl sy'n cael eu trosglwyddo i gartrefi gofal, tai Gofal Ychwanegol a thai â chymorth, Rhannu Bywydau (a elwir weithiau yn "lleoliadau oedolion"), lleoliadau llai dwys eraill neu gartref gyda pheccyn gofal neu ailalluogi. Mae'n berthnasol i bobl sydd:

- angen gofal ailalluogi neu ofal cartref (naill ai ar Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu 2 neu ddychwelyd at eu pecyn gofal cyfredol neu ddechrau pecyn newydd)
- yn trosglwyddo i wely llai dwys mewn cartref gofal neu leoliad arall ar Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu 3
- yn trosglwyddo i leoliad llai dwys sy'n heintus â COVID ar Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu 3a
- yn dychwelyd i leoliad cartref gofal presennol ar Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu 4
- yn trosglwyddo i leoliad cartref gofal newydd.

Mae'r diweddariad hwn i'r canllaw yn nodi'n fanwl y tri phrif senario:

1. Ar gyfer cleifion heb dystiolaeth o COVID-19 sy'n barod am y cam nesaf o ofal: rhyddhau i leoliad/pecyn gofal cyfredol neu newydd, pan fydd unigolyn wedi cael prawf negatif am COVID-19, naill ai RT-PCR neu LFT, cyn ei ryddhau, gyda chyfnod ynysu o 10 diwrnod a'r dewis i 'brofi i ryddhau' ar ddiwrnod 3 gyda Phrawf Llif Unffordd (LFT) negatif.
2. Ar gyfer cleifion sydd wedi cael haint COVID-19, sy'n barod am y cam nesaf o ofal ac sydd wedi cael cadarnhad nad ydynt yn heintus: rhyddhau i leoliad neu gael pecyn gofal cyfredol neu newydd, heb angen cyfnod ynysu.
3. Ar gyfer cleifion sydd wedi cael haint COVID-19, sy'n barod am y cam nesaf o ofal ac sydd wedi cael cadarnhad eu bod yn heintus â COVID-19, eu bod yn parhau i arddangos symptomau neu o fewn y cyfnod ynysu 10 diwrnod cychwynnol: trosglwyddo i gyfleuster gofal llai/mwy dwys tra'n heintus â COVID.

1. Ar gyfer cleifion heb dystiolaeth o COVID-19 sy'n barod am y cam nesaf o ofal: rhyddhau i leoliad/pecyn gofal cyfredol neu newydd, pan fydd unigolyn wedi cael canlyniad prawf RT-PCR neu LFT negatif am COVID-19 cyn ei ryddhau, ymgymryd â chyfnod ynysu 10 diwrnod gyda'r dewis o 'brofi i ryddhau' gyda phrawf llif unffordd (LFT) negatif ar ddiwrnod 3.

Pan fydd unigolyn wedi'i dderbyn i'r ysbyty heb unrhyw dystiolaeth o haint COVID-19, yn barod ar gyfer y cam nesaf o ofal, ac wedi cael prawf negatif am COVID-19, gellir ei ryddhau i'w leoliad neu becyn gofal cyfredol neu newydd. Mae hyn yn amodol ar y darparwr yn cytuno bod y trefniadau ynysu a Chyfarpar Diogelu Personol priodol yn eu lle, a'u bod yn gallu cefnogi cyfnod hunanyysu o hyd at 10 diwrnod.

Ar ddiwrnod 3 y cyfnod hunanyysu, caiff y cartref gofal wneud prawf LFT dilynol ar gyfer yr unigolyn; os yw'r prawf LFT hwn yn cadarnhau'r canlyniad negatif gwreiddiol, caiff cyfnod hunanyysu'r unigolyn ddod i ben. Os yw canlyniad y prawf PCR yn bositif, dylai'r lleoliad gofal gyfeirio at ganllawiau ar wahân sy'n amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli achosion.

Efallai na fydd rhai cartrefi gofal yn gallu cefnogi trefniadau hunanyysu oherwydd y cyfleusterau sydd ar gael neu anghenion arbenigol yr unigolyn. Os cynlluniwyd i dderbyn yr unigolyn i'r ysbyty, neu os oedd hyn yn ddewisol, ar gyfer yr achosion hyn yn unig gall y cartref gofal gynnal asesiad risg ar yr angen i hunanyysu pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty.

Bydd ffactorau i'w hystyried wrth bwysu a mesur yr opsiwn hwn yn cynnwys:

- A yw'r person sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty wedi cael dos llawn y brechlyn (h.y. wedi cael prif gwrs y brechlyn) ers pythefnos. Dylid annog unigolion i gael dosau atgyfnerthu o'r brechlyn os yw'n gymwys;
- Nid yw'r person sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty wedi dod i gysylltiad ag unigolyn sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, yn y 10 diwrnod diwethaf, ac mae wedi cael canlyniad prawf RT-PCR neu LFT negatif;
- Y gallu i weithredu rhagofalon ynysu yn ymarferol¹ yn amgylchedd y cartref (lle bynnag y bo hynny) a gyda'r trefniadau staffio sydd ar gael;
- Y risg i breswylwyr/defnyddwyr gwasanaethau eraill, a'r effaith arnynt; ac
- A yw'r cartref gofal sy'n derbyn (neu drefniant tai â chymorth arall) wedi cofnodi achos wedi'i gadarnhau o COVID-19.

Dychwelyd i amgylchedd cyfarwydd yr unigolyn i adfer ymhellach fydd yr opsiwn a ffefrir bob amser, gan mai dyma fydd yn darparu'r canlyniadau gorau ar eu cyfer. Dylid cefnogi darparwyr i weithredu'r opsiwn hwn lle bynnag y bo modd.

Os cafodd yr unigolyn ei dderbyn i'r ysbyty am driniaeth frys/nad oedd yn ddewisol, rhaid dilyn gweithdrefnau hunanynysu.

Mae crynodeb o'r newidiadau isod:

2. Ar gyfer cleifion sydd wedi cael haint COVID-19, sy'n barod am y cam nesaf o ofal ac sydd wedi cael cadarnhad nad ydynt yn heintus: rhyddhau i leoliad neu gael pecyn gofal cyfredol neu newydd, heb angen cyfnod ynysu.

Caiff cleifion (ac eithrio'r rheini sydd ag imiwnedd gwan difrifol) sydd wedi cael COVID-19 wrth gael eu derbyn i'r ysbyty eu diffinio fel cleifion 'nad ydynt yn heintus', a'u rhyddhau i leoliadau gofal cymdeithasol heb ofyniad dilynol i hunanynysu os yw'r pwyntiau canlynol i gyd yn berthnasol:

- 1) Mae o leiaf 10 diwrnod ers naill ai (a) i'r symptomau ddechrau neu (b) prawf COVID positif cyntaf;
- 2) Nid oes gwres wedi bod ar y claf am o leiaf tri diwrnod;
- 3) Mae'r claf wedi profi gwelliant clinigol yn ei symptomau heblaw am wres;
- 4) Mae prawf RT-PCR yn negatif neu'n 'bositif isel' gyda gwerth Ct o ≥ 35

¹ Mewn cartref gofal, mae rhagofalon ynysu yn golygu y dylai'r preswyllydd fod mewn ystafell seagl, yn ddelfrydol gyda chyfleusterau en-suite neu doiled dynodedig ac nad yw'n gadael yr ystafell (gan gynnwys ar gyfer prydau bwyd). Byddai disgwyl i staff wisgo Cyfarpar Diogelu Personol yn unol â gofynion y ddogfen ganllaw y mae dolen iddi isod:

[COVID-19 - How to work safely in care homes](#)

Dylai trefniadau rhyddhau ar gyfer cleifion sydd ag imiwnedd gwan difrifol fod yn seiliedig ar drafodaeth ac asesiad o'r unigolyn rhwng timau clinigol a microbioleg.

3. Ar gyfer cleifion sydd wedi cael haint COVID-19, sy'n barod am y cam nesaf o ofal ac sydd wedi cael cadarnhad eu bod yn heintus â COVID-19, eu bod yn parhau i arddangos symptomau neu o fewn y cyfnod ynysu 10 diwrnod cychwynnol: trosglwyddo i gyfleuster gofal llai/mwy dwys tra'n heintus â COVID.

Pan fydd unigolyn wedi cael ei dderbyn i ysbyty gyda COVID-19, neu wedi ei ddal yn yr ysbyty, ac yn barod i symud o'r ysbyty aciwt i'w gam nesaf o ofal (gweler Atodiad B Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty) ac yn heintus â COVID-19, dylent symud i lwybr rhyddhau 3a '**Gofal llai dwys tra'n heintus â COVID**'. Mae'r cam hwn wedi ei anelu'n bennaf at bobl sydd:

- Angen cymorth ar gyfer adferiad ac asesiad pellach ar gyfer gofal parhaus trwy un o Lwybrau D2RA; neu
- Yn dychwelyd i leoliad cyfredol; ac
- Yn parhau i arddangos symptomau neu'n profi'n heintus â COVID-19 ar ôl cyfnod yn yr ysbyty neu eu bod yn dal i fod o fewn y cyfnod ynysu 10 diwrnod cychwynnol.

(Drwy 'brofi'n heintus â COVID-19', rydym yn golygu wedi cael prawf RT-PCR sy'n 'bositif iawn' gyda gwerth Ct o <35)

Beth yw cyfleuster 'llai dwys/mwy dwys tra'n heintus â COVID'?

Gallai hyn olygu ysbyty cymunedol, ysbyty maes neu leoliad priodol arall. Gallai fod yn broses o osod cleifion mewn cohortau yn seiliedig ar eu statws COVID. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol roi trefniadau priodol ar waith i sefydlu a chynnal/gweithredu cyfleuster o'r fath.

Rhaid i gleifion yn y senarios hyn beidio ag aros yng ngwelyau ysbytai aciwt.

Mae Siart Llif Rhyddhau o Ysbyty COVID wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**.

Er y dylid osgoi symudiadau niferus ar y cyfan, o dan amgylchiadau eithriadol, bydd y llwybr diwygiedig yn:

- ✓ Lliniaru'r risgiau o groes-heintio i bobl sy'n agored i niwed;
- ✓ Amddiffyn capasiti gwelyau ysbytai aciwt;
- ✓ Amddiffyn adnodd prin staff gofal cymdeithasol; a
- ✓ Gwneud y gorau o'r cyfle i gael mewnbyn therapiwtig gweithredol yn ystod y cyfnod adferiad cynnar, efallai gan liniaru'r gostyngiad mewn ailalluogi pan fydd timau cymunedol wedi eu hadleoli i wasanaethau eraill.

Dylid darparu'r un gwasanaeth ar gyfer **'gofal mwy dwys'** o leoliad neu gartref unigolyn lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, lle mae achos o COVID wedi'i gadarnhau mewn cartref gofal, gall fod achos dros drosglwyddo preswylwyr sy'n profi'n heintus â COVID-19 neu sy'n dal i arddangos symptomau, i gyfleuster gofal mwy dwys i liniaru'r risg o groes-heintio pellach a darparu unrhyw fewnbwn therapiwtig sydd ei angen.

Adolygir y canllaw hwn yn rheolaidd.

Y Camau Gweithredu Gofynnol

Rhaid i Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'u partneriaid nodi cyfleusterau addas yn eu hardal ar gyfer y cam 'gofal mwy dwys/llai dwys tra'n heintus â COVID' ar y Llwybr Rhyddhau COVID-19.

Rhaid hefyd ystyried sut y gall y ddarpariaeth hon ddarparu ar gyfer pobl sydd â nam gwybyddol/deliriwm/anabledd dysgu/anghenion iechyd meddwl eraill a sicrhau bod y cymysgedd sgiliau cywir, gan gynnwys cyngor a chefnogaeth iechyd meddwl, ar gael.

Rhaid i'r holl gleifion sy'n gadael y cam 'gofal mwy dwys/llai dwys tra'n heintus â COVID' (yn cynnwys trosglwyddo i un o'r prif lwybrau D2RA) gael eu statws heintus wedi'i adolygu o dan y meini prawf a nodir o dan bwynt 2 uchod, profi a chadarnhau eu statws heb fod yn heintus â COVID-19, gyda'r darparwr gwasanaeth sy'n eu derbyn, a hynny cyn i'r trosglwyddo ddigwydd.

Gan fod profion ond yn wir ar gyfer yr adeg y cymerwyd y prawf, a bod risg bychan bod yr LFT wedi'i wneud ar ddechrau'r cyfnod heintus, bydd dal yn angenrheidiol i gleifion heb unrhyw dystiolaeth o haint COVID-19 yn ystod y cyfnod y cawsant eu derbyn i'r ysbyty hunanynysu. Gallai'r cyfnod ynysu hwn ddigwydd mewn cyfleuster gofal iechyd neu yn y cartref gofal neu leoliad gofal cymdeithasol arall a caiff y cyfnod ddod i ben gyda phrawf dilynol.

Crynodeb o Senarios Rhyddhau

Senario/Statws Covid-19 Claf	Dull gweithredu	Canlyniad a ddymunir
1. Derbyn i'r ysbyty am resymau heb fod yn ymwneud â COVID-19.	Darparwr yn cytuno ei bod yn briodol trosglwyddo i leoliad/cael pecyn gofal cyfredol neu newydd a'u bod yn gallu cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer ynysu am hyd at 10 diwrnod, gyda phrawf LFT 'i ryddhau' ar ddiwrnod 3.	Unigolyn yn gwella yn yr amgylchedd gorau posibl, gan liniaru unrhyw risgiau iddynt hwy ac i eraill.
	Darparwr yn anghytuno ei bod yn briodol trosglwyddo.	Cefnogir yr unigolyn hyd nes y bydd amser

<p>Prawf COVID-19 Negatif – PCR neu LFT</p>	<p>Trosglwyddo unigolyn i gyfleuster gofal llai dwys ac ynysu am hyd at 10 diwrnod, gan gymryd prawf LFT 'i ryddhau' ar ddiwrnod 3.</p> <p>Angen prawf negatif pellach cyn trosglwyddo ar ddiwedd y cyfnod o 10 diwrnod. Nid yw'n hanfodol ynysu ymhellach, ond efallai y bydd rhai lleoliadau'n dymuno ynysu am gyfnod pellach fel mesur rhagofal.</p>	<p>trosglwyddo diogel yn cael ei drefnu.</p>
<p>2. Derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19 neu wedi'i ddal yn yr ysbyty.</p> <p>Yn barod i symud ymlaen o gyfnod aciwt y driniaeth.</p> <p>Prawf COVID heb fod yn heintus wrth gael ei ryddhau.</p>	<p>Trosglwyddo yn ôl i leoliad/cartref y claf, neu gael pecyn neu leoliad newydd, ar Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu os oes angen.</p> <p>Dim gofyniad i ynysu; gellir darparu gofal fel arfer.</p>	<p>Unigolyn yn gwella yn yr amgylchedd gorau posibl.</p> <p>Lliniaru risgiau i unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau eraill.</p>
<p>3. Derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19, neu wedi'i ddal yn yr ysbyty.</p> <p>Yn barod i symud ymlaen o gyfnod aciwt y driniaeth.</p> <p>Prawf COVID heintus.</p>	<p>Trosglwyddo/aros mewn cyfleuster 'gofal llai dwys/mwy dwys tra'n heintus â COVID'.</p> <p>Trosglwyddo yn ôl i'r lleoliad/pecyn gofal neu i gyfleuster gofal llai dwys rhydd o COVID, unwaith y bydd statws heb fod yn heintus â COVID wedi'i gadarnhau a bod y symptomau wedi gwella.</p>	<p>Unigolyn yn derbyn cefnogaeth briodol ar gyfer adferiad ac adsefydlu.</p> <p>Lliniaru risgiau i unrhyw breswylwyr/defnyddwyr gwasanaethau eraill.</p> <p>Cefnogi unigolyn i ddychwelyd i'w amgylchedd cyfarwydd cyn gynted ag y bydd hynny'n ddiogel ac yn briodol.</p>

SIART LLIF RHYDDHAU O YSBYTY COVID-19 (Cymru)


ATODIAD A

Penderfyniad i dderbyn i'r ysbyty neu i drin yn y cartref

Trefniadau rhyddhau syml

Os oes angen cymorth ar ôl rhyddhau'r claf o'r ysbyty, dylid ystyried yr angen am gyfleuster 'cam i lawr tra'n heintus â COVID'

Gweithredu Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu



Y Goeden Benderfyniadau: Statws heintus o ran COVID ar adeg rhyddhau

Yn berthnasol i bob claf sydd angen cymorth gan ofalwyr cyflogedig adeg rhyddhau.

(Mae hwn yn cynnwys lleoliadau cartrefi gofal, Gofal Ychwanegol, tai â chymorth, Rhannu Bywydau (a elwir weithiau yn "lleoliadau oedolion"), pecynnau gofal yn y cartref a Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu 2, 3 a 4)

Senario 1

Ni chafodd y claf ei dderbyn i'r ysbyty â COVID-19, nid yw'n dangos unrhyw symptomau ac mae wedi cael canlyniad prawf negatif.

Rhyddhau'r claf gyda chyfarwyddyd i hunanynysu am 10 diwrnod gyda'r dewis o 'brofi i ryddhau' gyda Phrawf Llif Unffordd (LFT) ar ddiwrnod 3. Os yw'r LFT ar ddiwrnod 3 yn cadarnhau'r canlyniad negatif gwreiddiol, caiff yr unigolyn roi'r gorau i hunanynysu.

Os yw'r LFT ar ddiwrnod 3 yn bositif, rhaid i'r unigolyn gwblhau cyfnod hunanynysu llawn o 10 diwrnod.

Cysylltu â darparwyr gofal i gadarnhau eu bod yn gallu cefnogi'r ddwy sefyllfa hunanynysu

Os nad yw'r darparwr gofal yn teimlo'n hyderus i gefnogi'r cyfnodau hunanynysu, dylai'r timau rhyddhau o'r ysbyty:

a.) ystyried a oes modd darparu cymorth gan y GIG er mwyn hwyluso'r broses rhyddhau (PPE, cyngor a chefnogaeth etc.)

b.) Os na chytunir i ryddhau'r claf, trefnu ei gludo i gyfleuster gofal llai dwys ar gyfer y cyfnod ynysu 10 diwrnod, gyda phrawf i ryddhau ar ddiwrnod 3

Senario 2

Mae'r Claf wedi cael COVID-19

Nid yw imiwnedd y claf yn ddifrifol o wan ac:

- ✓ mae 10 diwrnod ers i'r symptomau ddechrau/y prawf positif cyntaf am COVID;
- ✓ Heb gael gwres am o leiaf 3 diwrnod;
- ✓ Yn dangos gwelliant clinigol o ran symptomau;
- ✓ Wedi cael prawf RT-PCR sy'n negatif neu'n positif isel gyda gwerth Ct o ≥ 35

Gellir rhyddhau'r claf yn ddiogel, heb angen hunanynysu.

Os oes gan y claf imiwnedd gwan difrifol, dylid trafod â'r tîm microbiolog

Senario 3

Mae'r Claf wedi cael COVID-19

Cam aciwt y driniaeth wedi'i gwblhau ond:

- Mae gan y claf symptomau o hyd;
- Mae llai nag 10 diwrnod ers i'r symptomau ddechrau/y prawf positif cyntaf am COVID
- Wedi cael canlyniad prawf sy'n dangos ei fod dal yn heintus

Ni ddylai'r claf aros mewn gwely ysbyty aciwt.

Trosglwyddo i gyfleuster mwy/llai dwys priodol tra'n heintus gyda COVID.

Cefnogi adferiad gweithredol tan y gellid symud i Senario 2.